

Llais Llandyrnog Voice

✉ llandyrnognews@gmail.com 🐦 @LlaisLlandyrnog

Ionawr 2022 – Cyfrol 7- Rhifyn 4

Llwyfan Goffa Lis Morris



Cafwyd noson ardderchog yn Ysgol Bryn Clwyd i ddathlu'r Nadolig ac agor Llwyfan Goffa Lis Morris gan Elfed Morris a'r teulu.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rheini sydd wedi cyfrannu'n hael yn ariannol yn ystod 2021 – mae sawl unigolyn wedi bod yn hael iawn. Diolch hefyd i'r Clwb Llyfrau am ei gyfraniadau. Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post neu o'r siop gig, cofiwch roi cyfraniad yn y bocsys casglu, os gwelwch yn dda.



Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr – diolch yn fawr am eich cefnogaeth ac i'r tîm sydd wedi cadw'r Llais i fynd bob mis. Diolch hefyd i'n holl gyfranwyr am ysgrifennu erthyglau diddorol. Cefnogwch y bore coffi, fore Sadwrn, 5 Chwefror – bydd yr arian a godir yn mynd tuag at y costau argraffu.

Daliwch ati i anfon newyddion ac erthyglau – eich cylchgrawn CHI yw *Llais Llandyrnog Voice*.

Ruth Griffith

Cadeirydd Pwyllgor Llais Llandyrnog Voice

Mae'r Gwanwyn yn y tir



Dyma luniau i godi calon – cennin Pedr wedi dod i'r golwg ym Maes y Wern a Hafod y Bryn.

Pytiau newyddion y pentre

Mae rhywun arbennig iawn wedi dod i fyw i'r pentref – Alba, ci tywys Rob Dowell. Rydyn ni'n gobeithio y bydd Alba yn hapus iawn yn ein plith ac yn help mawr i Rob.



Croeso hefyd i Tom a Penny Hughes a'r teulu i'r Ceffyl Gwyn.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at fore coffi'r Gymdeithas Hanes – codwyd dros £130, er gwaethaf anawsterau'r toriad yn y trydan.

Llongyfarchiadau i Trefor a Val, y Rheithordy, sydd wedi cael wŷr bach arall – ganwyd Tomos Ellis i Bethan a Hywel, brawd i Erin a Gruff.

Dymuniadau i Grace Jones sydd wedi symud i Ddolwen, Dinbych.

Mae Bryn Davies a Phil Rose, a Phil Johnson o Ddinbych yn haeddu clod am drefnu taith fer i dractorau ar 27 Rhagfyr. Roedd yn boblogaidd iawn a chodwyd £530 tuag at Dementia UK.

Mae'r llyfr *Sam's Tale*, wedi'i ddarlunio a'i gyhoeddi gan Sylvia Evans, Fforddlas, wedi bod yn gwerthu'n dda – mae copïau wedi'u hanfon i'r Unol Daleithiau, Canada, Awstralia, Ffrainc a ledled y Deyrnas Unedig. Mae £50 wedi'i gyfrannu eisoes at Loches Anifeiliaid Gogledd Clwyd (NCAR). I ddarllen erthygl am Sylvia a'i chyhoeddiad, ewch i dailypost.co.uk a chwiliwch am Sylvia Evans.

I brynu copi o'r llyfr, cysylltwch â Sylvia: syl.evans@sky.com neu anfonwch neges drwy Facebook. £8.99 yr un yw cost y llyfr, a £2.50 o gostau postio. Neu gallwch ei nôl o gartref Sylvia. Bydd £1 am bob llyfr a werthir yn mynd tuag at yr NCAR.

Llongyfarchiadau i Elen McCoolle Jones ar ei

llwyddiant yng ngala nofio Nadolig y Waun. Yn cynrychioli Ruthin Rays, bu'n cystadlu yn



erbyn clybiau Wrecsam, Llandudno, y Waun, Caer, Corwen, Crewe, y Drenewydd a Bwrdeisdref Waltham. Nofiodd mewn 6 ras, gan ennill dwy, dod yn ail mewn dwy, yn drydydd ac yn bedwerydd yn y ddwy ras arall. Gwnaeth ei hamser

gorau erioed yn y 6 ras.

Llongyfarchiadau hefyd i Gruff Crowther, wŷr Jack Crowther ar ennill medal aur ym Mhencampwriaethau Nofio Para Prydain yn Abertawe. Da iawn y ddau ohonoch, Elen a Gruff.



Bore coffi
Neuadd y Pentre
5 Chwefror
10.00–11.00

Yr elw at Llais Llandyrnog Voice,
eich cylchgrawn newyddion lleol chi
Derbynnir yn ddiolchgar roddion tuag
at stondin cynnyrch cartref
Bydd raffl yn cael ei thynnu
Cysylltwch ag Anwen ar 07340 271051
am ragor o fanylion

Capel y Dyffryn

Cydymdeimlwn â theulu Glan y Wern Isa – Nerys wedi colli ei thad, Elwyn Davies, Pen Aled, Llansannan; teulu Dyffryn Awel – Elfed wedi colli ei fam, Alice Morris a oedd newydd ddatlu ei phen blwydd yn 100 oed, a'i gefnder, Elwyn.

Gwasanaeth Nadolig y Plant Eleni cynhaliwyd gwasanaeth y plant yn y Neuadd fore Sul 19 Rhagfyr, er mwyn cadw at reoliadau cofid. Daeth tyrfa luosog i weld y plant yn cyflwyno stori'r geni yn eu dull dihafal eu hunain, gyda chaneuon a darlenniadau ychwanegol. Yna, ymddangosodd Siôn Corn hwyliog, gan rannu anrhegion i'r plant! Mwynhawyd coffi a mins peis ar ddiwedd y cyfarfod.



Oedfaon mis Ionawr

02/01/22	10.00	Oedfa'r fro
09/01/22	9.45	Dr Owain Edwards
23/01/22	9.45	Y Parch. Andras Iago
30/01/22	11.00	Y Parch. John Owen

Neuadd y Pentref

Bob nos Lun 5.30-7pm: y Brownies

Mae croeso i ferched rhwng 7 a 10 oed ymuno â ni. Cysylltwch â Mrs Karen Morris ar 07540 146125 am ragor o wybodaeth.

I logi Neuadd y Pentref, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.

Costau hurio Neuadd y Pentre

O hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2022, cewch logi'r neuadd a'r gegin am £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl sy'n byw yn y gymuned ac sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Disgwylir i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw wedyn.

Fe fydd y darllenwyr selog yn sylwi nad oes erthygl o Blas Ashpool yn y rhifyn hwn. Mae Fiona Bell yn dymuno cael seibiant – un haeddiannol iawn. Diolchwn yn fawr iddi am ei chyfraniadau ers y rhifyn cyntaf, a chyn hynny yn y *Village Voice*.

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I
LAWR

01745 815141

07808970364

Llan Llanast

Dydd Sul 12fed Rhagfyr oedd sesiwn ola' Llan Llanast am eleni. Roedd yn gyfarfod swnllyd, prysur, llawn hwyl gyda 20 o blant yn mwynhau dathlu stori geni'r Iesu unwaith eto. Tynnwyd llun o'r plant (i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad!). Gwnaethon ni goronau a sêr, creu baban Iesu o fferins jeli a Mair o doli peg; yna lliwio cynfasau, gwneud lluniau o'r geni trwy gelf smotiog a theganau i hongian ar y goeden.

Bu pawb yn helpu gwneud ffris gydag angyllion yn yr awyr wrth iddyn nhw roi'r newyddion da i'r bugeiliaid ar y ddaear, a helpu i adeiladu preseb cyn ei roi yn y stabl yn barod ar gyfer y baban Iesu. Ymgasglodd pawb o gwmpas y preseb i wrando ar yr hen stori unwaith eto ac i ganu carolau. Daeth y cyfarfod i ben gyda phicnic hyfryd.

Does dim Llan Llanast ym mis Ionawr, ond byddwn yn ôl ar y 13eg o fis Chwefror (gobeithio!). Gobeithiwn y cawn eich gweld bryd hynny!

Mary Steel



Dŵr i Landyrnog

Cyn 1911, cario dŵr roedd pawb i'r cartref o ffynnon neu o'r afon gan ddefnyddio iau dros eu hysgwyddau. Yn ystod 1911, trafodwyd cyflenwad dŵr mewn cyfarfod o Gyngor Dosbarth Gwledig Rhuthun. Penodwyd peirianydd i baratoi cynlluniau a chadarnhawyd benthyciad o £5150 (tua £650k heddiw!) at ddibenion creu cyflenwad dŵr i Landyrnog a Llangynhafal. Arwyddodd y Cadeirydd gytundeb i brynu tir, ac ymhen hir a hwyr, dechreuodd y gwaith yn Nant y Ne, llecyn hyfryd uwchben Llanbedr.

Cludodd ffermwyr lleol y nwyddau o orsaf Llanrhaeadr i gornel Rhiwbebyll lle rhoddwyd harnais ar ddau geffyl o'r newydd i orffen y daith i Nant y Ne. Rhoddwyd un tap i bawb ei rannu ar gornel Teras Clwyd yng nghanol y pentre.

(Dyfyniad o *Llandyrnog a Llangwyfan – Trem yn Ôl*, ar werth yn y Swyddfa Bost)



I ymweld â'r llecyn hyfryd yma mi fydd raid i chi barcio yn daclus rywle o gwmpas Plas Draw, Llangynhafal a cherdded i fyny'r lôn sy'n arwain at Dy'n Celyn, i fyny at odre Moel Famau a throi i'r dde am ryw filltir. Wnewch chi ddim difaru!

Bryn Davies

Ysgol Bryn Clwyd

O gylchlythyr 26 Tachwedd:

'Mae wedi bod yn ddiwrnod llawn hwyl yn dathlu pen blwydd Ysgol Bryn Clwyd yn 50 oed. Agorwyd yr ysgol yn swyddogol ddydd Gwener, 26 Tachwedd, 1971 ... Yn y gwasanaeth heddiw, buom yn edrych ar hen luniau o'r ysgol a'r pentref ac yn meddwl am holl lwyddiannau plant y gorffennol dros y blynyddoedd ...

'Fel rhan o grant Llywodraeth Cymru, yr wythnos hon mae deg iPad newydd wedi cyrraedd yr ysgol i ychwanegu at ein hadnoddau TGCh. Gyda'r Chrome Books a'r gliniaduron sydd gan Ysgol Bryn Clwyd yn barod, erbyn hyn mae digon o ddyfeisiau yn yr ysgol i bob plentyn gael un ar yr un pryd, sy'n anhygoel!'

Y Babanod: Fel rhan o'u gwaith ar yr Arctig, maen nhw wedi bod yn dysgu am gynhesu byd-eang ac wedi defnyddio Apple Clips i wneud fideos sy'n rhoi gwybodaeth am sut i achub y blaned.

Dechreuodd y Nadolig yn swyddogol wrth i goblynnod y Nadolig ddod yn ôl. Cafodd y goeden ei haddurno ac roedd yr ystafell ddosbarth yn edrych yn ddisglair iawn!

Ond doedd dim byd a wnaeth y disgyblion yn y dosbarth yn gallu cystadlu â diddordeb y plant mewn dysgu sut i adeiladu gyda Mr Jones!

Y Dosbarth Iau: Maen nhw wedi bod yn gweithio mewn timau i greu sêr origami ar



Plant yn cadw llygad barcud ar Mr Jones wrth iddo adeiladu Llwyfan Goffa Lis Morris.

gyfer arddangosfa arbennig yn Eglwys San Pedr, Rhuthun, ac wedi dechrau dysgu gorchmynion yr ystafelloedd ddosbarth yn Ffrangeg.

Mwynhaodd yr ysgol gyfan eu sesiynau yn y Wonderdome ac wrth eu boddau i ddysgu am y Mars Rover a'r chwilio am fywyd yn y gofod.

Gobeithio bod Mr Monteiro, Mrs Lyon a holl staff yr ysgol wedi cael seibiant haeddiannol dros y Nadolig a phob dymuniad da ar gyfer y tymor newydd!



Cafwyd noson ardderchog ar ôl agor y llwyfan newydd. Canwyd carolau, darparwyd lluniaeth, a rhoddodd y farchnad a'i stondinau gyfleoedd i brynu ychydig o anrhegion Nadolig. Wrth gwrs, daeth Sion Corn heibio hefyd.

Tri lle

Cricieth

Daeth Cricieth yn dref glan môr boblogaidd pan gyrhaeddodd y rheilffyrdd. Byddai teuluoedd yn cyrraedd ac yn rhentu tai mawr am yr haf. Fe aethon ni yno gyntaf oherwydd bod mudiad y Girl Guides wedi rhentu tyddyn bach a'i adnewyddu i fod yn ganolfan gweithgareddau awyr agored. Rydyn ni wedi bod yno sawl gwaith dros y blynyddoedd. Mae'r ffordd dros Hiraethog a'r olygfa lawr i Borthmadog yn anhygoel, ond yr un orau yw honno a welwch wrth i chi droi'r cornel a gweld castell Cricieth am y tro cyntaf. Codwyd hwn ddechrau'r 13eg ganrif gan Llewelyn Fawr ac mae'n sefyll ar graig, a'r môr yn ei amgylchynu ar ddwy ochr. Mae'r traethau'n hyfryd, a chrancod lu yn y pyllau yn y creigiau. Mae adeilad a ddyluniwyd gan Clough Williams-Ellis ar ddiwedd y promenâd – bwyty Dylan's. Mae Caffi Cwrt yn adeilad hynafol ger y sgwâr. Cewch eich croesawu gan Irene, y perchennog ac mae'r bwyd yn ardderchog yno.

Mae canolfan y Girl Guides ar stad Ynysgain sydd ar dir ag eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei amgylchynu. Mae tri adeilad yn y ganolfan o gwmpas sgwâr o laswellt – un ohonyn nhw wedi'i ddylunio'n bendodol i bobl anabl. Mae mewn man hyfryd a gallwch gerdded oddi yno ar hyd yr arfordir i'r dref. Mae gennym sawl atgof hapus o fynd â'n hwyrion yno, ac yn ddiweddar dychwelodd un i'r ardal i wersyll milwyr wrth gefn.

Mae cymaint o leoedd hardd yng Nghymru ac mae Cricieth yn lle pwysig iawn yn ein bywydau. Ewch yno ar bob cyfrif.

Chelford

Pentref yn Swydd Gaer yw Chelford. Aeth pedwar ohonon ni i fyw yno, a daeth tri yn rhagor wedyn. Roedden ni'n deulu o saith – dwy ferch a thri bachgen, gyda Mam a Dad. Dad oedd ficer Chelford ac roedden ni'n byw mewn ficerdy mawr. Roedd gardd hyfryd yno – llyisiau, tŷ gwydr, patshyn rhiwbob a lawnt a oedd yr un maint â chae pêl-droed. Roedd Dad yn torri'r glaswellt â pheiriant roedd yn ei

wthio. Roedd perllan yno hefyd, a oedd yn garped o gennin Pedr yn y gwanwyn ac yn ardd rhosod yn yr haf. Byddai trempyn cyfeillgar yn rhannu'r cwt coed â ni.

Mae eglwys Chelford wedi'i chysegru i St Ioan yr Efengylwr. Mae'n fawr iawn a seddi caeedig ynddi – byddai fy mrodyr yn cuddio o dan y seddi a chwarae gyda'u ceir yn ystod yr oedfa!

Ers talwm roedd marchnad wartheg brysur yn Chelford, ond heddiw mae pobl yn mynd yno i brynu planhigion. Roedd gorsaf rheilffordd tua hanner milltir o'n cartref a byddai fy chwaer a minnau'n mynd ar y trê'n i'r pentref nesaf i'r ysgol.



Mae Chelford yn bentref gwledig, ar safle gwastad iawn gyda thair mawr a gafodd eu hadeiladu gan ddynion busnes o Fanceinion, nifer ohonyn nhw'n froceriaid cotwm. Roedd garej a dwy siop yno, a nant lle bydden ni'n trochi'n traed. Roedd hi'n baradwys yno i mi a threuliais ddeng mlynedd hapus iawn yno gyda fy nheulu.

Gibraltar

Craig carreg galch anferth yw Gibraltar, 6.8km sgwâr, a chanolfan i'r llynges a'r llu awyr. Mae'n gwarchod culfor Gibraltar. Rydyn ni wedi bod yn ymweld â'r lle ers dros ugain mlynedd oherwydd ein bod wedi cael ar ddeall bod un o hynafiaid teulu Griffith wedi'i gladdu ym mynwent hanesyddol Trafalgar. Bu farw'n 18 oed o'r dwymyn felen yn 1804, ac rydyn ni'n rhoi croes ar ei fedd bob blwyddyn. Rydyn

ni wrth ein boddau â'r lle ac yn adnabod bron pob modfedd ohono erbyn hyn.

Yr epaod yw prif nodwedd Gibraltar. Mae eu gwyllo nhw'n hynod ddifyr – mor debyg i bobl ond yn eithaf brawychus pan maen nhw'n neidio i mewn i'ch ystafell yn y gwesty i gymryd bisgedi a siwgr oddi ar yr hambwrdd coffi. Maen nhw hefyd wrth eu bodd â bagiau siopa pobl. Yn ddiweddar, maen nhw wedi'u cyfyngu i ran ucha'r graig, a chewch eu gweld nhw ddim ond os ydych chi'n mynd ar drip pwrpasol neu'n barod i gerdded i fyny'r llwybr serth tuag atyn nhw.



Y gerddi botaneg, lle mae nifer o gyplau'n tynnu eu lluniau priodas, a gardd y mileniwm yw'r unig fannau gwyrdd yn Gibraltar, heblaw am dŷ'r Llywodraethwr. Mae nifer o adeiladau uchel yno yn edrych dros y môr. Mae'r harbwr yn brysur – nifer fawr o gychod hwylio yno, ac yn bellach allan ar y môr, mae llongau mawr yn disgwyl i fanteisio ar bris rhad tanwydd.

Mae milltiroedd o dwneli yn y graig, rhai'n dal i fod yn gyfrinach, ac eraill yn atyniadau i ymwelwyr. Mae olion dyn Neanderthal wedi'u darganfod mewn ogof a chredir eu bod yn 42,000 oed. Erbyn hyn mae'r ogof wedi'i gwarchod. Roedd olion y Llyngesydd Nelson, a gadwyd mewn baril o frandi, mewn llong a angorodd mewn harbwr cysgodol ar ei thaith yn ôl i Loegr

Rydyn ni'n teithio i bob rhan o'r graig ar docynnau bws i bensynwyr, a'u cost yw £1.50 y dydd. Mae'r jin yn rhad iawn yn ogystal â'r sigaréts, sy'n cael eu smyglo i mewn i Sbaen yn

aml. Byddwn ni'n yfed coffi yn Sgwâr Casemate, ar ôl cerdded i lawr y Stryd Fawr heibio'r eglwysi Anglicanaidd a Chatholig, a'r synagog. Mae mosg yn Europa Point. Mae'r holl grefyddau'n byw'n heddychlon ochr yn ochr.

Byddwn yn ymweld â'r gwn 100 tunnelli – dim ond unwaith mae hwn wedi'i danio, ar brawf. Mae gwn tebyg iddo ym Malta. Mae'r bws yn mynd â ni i Europa Point, y man pellaf i'r de yn Gibraltar, lle mae goleudy a godwyd yn 1841 ac sy'n cael ei weithredu gan Trinity House.

Mae cyrraedd y graig yn brofiad sy'n eich gwneud chi'n nerfus iawn gan fod y rhedfa'n fyr iawn gyda'r môr bob pen iddi, ac mae'r brif ffordd yn ei chanol. Mae hon yn cael ei chau wrth i'r awyrennau lanio.

Efallai'ch bod chi'n caru neu'n casáu'r lle hwn, ond mae rhan bwysig iddo yn hanes Prydain. Rydyn ni wedi methu ein hymweliadau â Gibraltar dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ruth Griffith

DBP 

**Denbigh
Building
Plastics**

SUPPLIERS & INSTALLERS

*U_PVC windows, doors, rockdoors,
secondary double glazing, sealed units.
Conservatories, porches, garage doors,
fascias, gutters, dry verge system,
Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7

Colomendy Industrial Estate

Denbigh LL16 5TA

01745 818849

Open Mon – Fri 7.30am – 5 pm

Sat 9 am – 12 pm

Y DPJ Foundation



Ti yw'r enfys tra bo'r glaw;
ti yw'r gobaith... heulwen ddaw

'Haia sut wyt ti?'

Cwestiwn cyffredin iawn. Ydyn ni wirioneddol yn gofyn o ddifri sut mae'r person arall ai dim ond ffordd o gyfarch ydy hwn?

A fyddech chi'n deall bod person o fewn eich cymuned yn mynd drwy gyfnod anodd? A fyddech chi yn gwybod be i'w wneud i'w helpu neu hyd yn oed be i ddweud wrtho?

Gall Sefydliad y DPJ helpu gyda hyn. Rydyn ni'n cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl am ddim i gefnogi unrhyw un sy'n ffermio, yn byw yn y gymuned wledig, neu'n darparu cymorth neu wasanaethau i'r gymuned ffermio yng Nghymru.

Daeth Sefydliad DPJ i fodolaeth yn 2016 yn dilyn marwolaeth Daniel Picton-Jones drwy hunanladdiad. Penderfynodd ei weddw, Emma, greu'r sefydliad i gefnogi'r sector amaethyddol gydag iechyd meddwl, gan roi'r cymorth i'r rhai nad oedden nhw'n gwybod sut i'w gael.

Rydyn ni yma i siarad, i helpu, bob awr o'r dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn.
Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun 07860 048799

Gellir dod o hyd i Sefydliad DPJ ar-lein: ewch i www.thedpjfoundation.co.uk neu chwiliwch amdano ar Facebook, Twitter, Instagram a LinkedIn.

Arddangosfa gelf



Rhoddodd perchnogion Pentre Mawr le i arddangosfa dros dro yn eu horiel ddiwedd mis Tachwedd i James Eccleston ac Abbie Hulson. Cafodd ymwelwyr o bell ac agos fwynhad o weld detholiad o dirluniau, portreadau o anifeiliaid a darluniau bywyd llonydd. Gwerthodd yr artistiaid sawl darn ac maen nhw'n diolch yn fawr i Bre a Graham, Pentre Mawr, ac i bawb a ddaeth heibio.



Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook



Siaradwr gwadd mewn cynhadledd ryngwladol



Fis Tachwedd diwetha, daeth Laura Jones – ein Laura ni, merch Keith a Bethan – dros ei harswyd o siarad yn gyhoeddus i fod yn siaradwr gwadd o flaen cynulleidfa o gannoedd o bobl yng Nghynhadledd Meddygaeth Eithafol y Byd a gynhaliwyd yng Nghaeredin.

Ymgynghorydd Iechyd Byd-eang elusen Save the Children International yw Laura, ac mae hi'n gweithio yn Barcelona. Mae ganddi gefndir clinigol mewn meddygaeth cyn mynd i'r ysbyty, a meddygaeth frys a gofal critigol. Mae ei swyddi'n cynnwys Ymgynghorydd Iechyd Rhyngwladol i VSO yn Bangladesh, Uganda, Malawi and Tanzania; Swyddog Meddygol a Deifiwr Meddygol Raleigh International ac Operation Wallacea yn Nicaragua, Costa Rica, Ecuador, Mexico, a De Affrica; Addysgwr Clinigol Cenhadaeth y Gwahangleifion yn Nepal, a nyrs i Ddoctoriaid y Byd yn y Deyrnas Unedig. Mae gan Laura brofiad mewn datblygiad dyngarol, rheoli clefydau wrth iddyn nhw ddod i'r amlwg, ac ymateb i argyfyngau a thrychinebau. Ar hyn o bryd mae'n arweinydd cyd-drefnu iechyd a lles staff, ac yn diogelu gweithwyr rheng flaen Save the Children International mewn 58 gwlad yn ystod pandemig COVID-19.

Yn ei hamser rhydd, mae Laura yn anturiwr

ac yn fynyddwr brwdfrydig ac yn eiriolwr dros gydraddoldeb rhwng y ddau ryw mewn chwaraeon a byd antur. Yn 2020, sefydlodd ei mudiad ei hun, sy'n annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon, ac mae hi wedi'i hethol yn ddiweddar yn Llysgennad Cydraddoldeb Ewrop i'r Cyngor Teithio Trawsfurfiol.

Teitl darlith Laura yn y gynhadledd oedd 'Stigma, Guilt and Gaps in the System'. Ymhlith y rhai a gymerodd ran yn y gynhadledd oedd yr actor, Tom Cruise, a'r amgylcheddwr, Dr Jane Goodall, sy'n adnabyddus am ei gwaith gyda *chimpanzees* yn Tanzania.

Ardderchog, Laura – rydyn ni yn Llandyrnog yn falch iawn o dy lwyddiant.

James Davies, AS Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

hgweb
designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882

07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

I Val ar ei hymddeoliad

I'm not used to writing speeches,
So that was not to be,
I'm doing something different,
Which eventually you will see.

I thought I'd sing a song,
So cheerful and so bright,
But the only thing my singing did
Was to give my dog a fright.

So I've decided to write a poem,
Which has taken quite a time,
I hope you will enjoy it,
And some of it will rhyme.

Val came from over the water,
To look after people's finances,
But soon decided to change the scene,
To look after ancient churches.

The Rectory is the family home,
Which they've done up really lovely,
The double garage though is quite full,
Of Trefor's cars he takes to rally.

A Rector's life to us looks easy,
But really it can be quite daunting,
And hidden problems can arise
When walls around keep falling.

The tasks Val had to undertake
Weren't always plain to see,
Especially when the question was
To fell or not a tree.

Whenever there was a problem
And things were not in line,
Val's favourite saying was,
'Don't worry, we'll be fine.'

Llangwyfan is a lovely church
That's unique and so old,
Val's even sorted out the heating
So now it's not so cold.

Val thinks the world of Messy Church,
To get the children started,
And we must promise, all of us,
It will continue when we've parted.

They have a house in Ruthin ,
Where the garden is so tidy,
The rumour is they're moving there
Because there is an Aldi.

So how can we all repay Val
For all she's done for us,
She may be quite unhappy
If we made a big fuss.

So we've put our heads together
To see what we could find,
We've got you something different
Which we hope is one of a kind.

It's all wrapped in paper
But soon enough you'll see,
The gift we've got for you
Is made from a big! big! tree!

So please accept our wishes
For health for many years,
And try not to get emotional
In case you shed some tears.

John Rowlands

Edrychwn ymlaen at weld rhagor o gynnyrch barddonol John!



Y Parch. Val a'i phlac pren hyfryd gyda delweddu o eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan wedi'u hysgythru arno

Eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan

Helô o Reithordy Trefnant,
Y Parchedig Rebecca yw fy enw i a fi yw
Arweinydd Ardal Genhadu Dinbych. Mae
eglwysi Llandyrnog a Llangwyfan yn perthyn
i'r Ardal Genhadu hon.

Wel, am flwyddyn oedd 2021! Petai
rhywun wedi dweud wrth unrhyw un
ohonom yr adeg hon y llynedd y byddem yn
cael ail Nadolig o dan fygythiad rheolau llym
Covid, rwy'n meddwl y byddem wedi ei
amau. Ac eto, dyma ni unwaith eto.
Gobeithiwn y bydd newid er gwell yn
digwydd yn 2022!

Rwy'n siŵr eich bod chi i gyd yn
ymwybodol erbyn hyn fod y Parchedig Val
wedi ymddeol ddiwedd mis Tachwedd, ar ôl
gweithio yn yr Ardal Genhadu am y 7
mlynedd diwethaf. Mae'r Eglwys yng
Nghymru wedi bod yn gweithio'n raddol i ad-
drefnu gweinidogaethu yn ein heglwysi lleol,
fel bod eglwysi ar draws ardal ddaearyddol
ehangach yn cydweithio'n agos. I ryw raddau
mae hyn yn golygu bod offeiriaid sy'n
gweithio yn yr Ardal Genhadu yn gallu
gweithio ym mhob un o'r eglwysi, ac mae
disgwyl iddyn nhw wneud hyn. Yn Ardal
Genhadu Dinbych rydym ni wedi penderfynu
ei bod hi'n bwysig bod offeiriad penodedig
gan eglwys a chymuned i ddarparu oedfaon a
gofal bugeiliol. Yn yr un modd, mae hi'n
bwysig bod clergwyr yn gallu defnyddio'u
cryfderau mewn ffyrdd eraill unrhyw le yn yr
Ardal Genhadu.

Ar hyn o bryd mae gennym ddau glerigwr
ac rydym wrthi'n chwilio am drydydd aelod i'r
tîm. Nes y byddwn i wedi cael hyd i'r un iawn
i gydweithio â ni, bydd Martin a minnau'n
rhannu'r gofalu am 14 eglwys yr Ardal
Genhadu rhyngom ni. Bydd y Parch. Martin
Pritchard yn gofalu am Landyrnog a
Llangwyfan, ynghyd â phedair eglwys arall, yn
ogystal â helpu'r holl eglwysi eraill yn yr Ardal
Genhadu. Mae Martin wedi bod yn
gweithio'n rhan-amser dros y flwyddyn
ddiwethaf yn Henllan a Llanefydd, lle mae'n
byw ar hyn o bryd. Fe gafodd gyfrifoldebau

ychwanegiadol a swydd lawn-amser ddechrau
mis Rhagfyr. Pan fyddwn ni'n recriwtio trydydd
offeiriad, byddwn yn ad-drefnu gofal yr
eglwysi. Ar hyn o bryd, tybiwn y bydd Martin
yn parhau i ofalu am Landyrnog a Llangwyfan.

Os hoffech chi drefnu priodas neu fedydd,
neu i drafod mater bugeiliol, cysylltwch â
Martin ar 07523 615384, neu anfonwch e-bost
at henllanpriest@icloud.com.

Pob bendith ar gyfer y Flwyddyn Newydd a'r
dyfodol.

Y Parch. Rebecca

Rebeccaspary-taylor@cinw.org.uk neu
01745 730101

Llongyfarchiadau i Wendy Evans, un o gyn-
drigolion Llandyrnog ac sy'n dal i fynychu'n
ffyddlon oedfaon yn eglwys St Tyrnog a St
Cwyfan. Mae hi wedi ennill gwobr ranbarthol y
Co-op, Hyrwyddwr Cymunedol y Flwyddyn. Yn
ei dull diymhongar ei hun, mynnodd Wendy
fod y wobr yn cydnabod y siop a'r tîm
cymunedol gwych yn y Co-op yn Ninbych.

Oedfaon

St Tyrnog

Ionawr 2, 11.15: Cymun Bendigaid

Ionawr 9, 11.15: Boreol weddi

Ionawr 16, 11.15: Cymun Bendigaid

Ionawr 23, 11.15: Boreol weddi

Ionawr 30, 9.30: Cymun Bendigaid

St Cwyfan

Ionawr 9, 11.15: Cymun Bendigaid

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 2pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Huw Foulkes, fferm Pentrefelin, a'r fenter newydd

Wyt ti wedi dy eni a dy fagu ar fferm Pentrefelin?

Do, yma ym Mhentrefelin y ces i fy magu, ac yma roedd fy nhad a 'nhaid yn ffermio, a dyna oedd f'uchelgais i ers erioed – cael godro fy ngwartheg fy hun ym Mhentrefelin. Erbyn hyn, rydw i'n byw yn Ninbych efo 'nghariad, ond Pentrefelin fydd fy ngartre am byth! Roedd Dad yn godro yma tan 2005, ac wedyn mi gafodd y fferm ei gosod ar rent.

Ble est ti am addysg gynradd ac uwchradd, a beth oedd y cam nesa' wedi dyddiau ysgol?

Es i i Ysgol Pen Barras ac yna i Ysgol Brynhfryd, Rhuthun. Roedd gen i ddiddordeb mawr mewn peirianeg, felly, efo nghefnidir amaethyddol, mi es i i Lysfasi i wneud Peirianeg Amaethyddol. Yna 'mlaen i Goleg Harper Adams, Sir Amwythig a gwneud cwrs tair blynedd mewn Peirianeg Amaethyddol. Roeddwn i wrth fy modd yn y coleg, ond, rhywsut yn *gwybod* mai adre fyddwn i eisiau dod yn y diwedd. Ar ôl dyddie coleg, mi fues i'n gweithio ar fferm laeth Y Gables, Llandyrnog, a dysgu popeth oedd i'w wybod am odro gwartheg.

Roedd dy dad wedi rhoi'r gorau i odro ers sawl blwyddyn. Beth oedd ymateb Dad a Mam pam soniast ti dy fod am ailddechrau?

Dw i'n cofio amser reit emosiynol i'r teulu pan fu raid i Dad roi'r gore i odro a gwerthu'r gwartheg. A finne'n meddwl yn ddistaw bach y byddwn i, rhyw ddiwrnod, yn hoffi godro fy ngwartheg fy hun ym Mhentrefelin. Faswn i ddim wedi cyrraedd lle'r ydw i rwan heb gefnogaeth Mam a Dad – maen nhw yna bob amser i mi, ac yn fy helpu i wireddu 'mreuddwyd. Mae pawb yn gwybod bod ffermwyr llaeth yn codi'n fore, a bydd Dad yno ar y buarth yn y bore bach yn barod i'm helpu ym mhob ffordd. Mae'r ddau wedi bod drwy amseroedd drwg a da yn y diwydiant llaeth yn y gorffennol, felly mae'n golygu cymaint i mi eu bod yn barod i 'nghefnogi i yn fy menter newydd.



Pa warthog sy gen ti, a pham dewis y rhain?

Dw i'n godro gwartheg *Red Poll* – brid deubwrpas o Suffolk a Norfolk. Roedden nhw'n boblogaidd iawn y 50au a'r 60au oherwydd eu bod yn magu lloeau biff da, ac yn cynhyrchu llaeth o'r safon ucha'. Pan gyflwynwyd yr *Holsteins*, gwthiwyd bridiau fel y *Red Poll* allan o'r diwydiant gan eu bod yn cynhyrchu llai. Mi ddewisais i'r brid yma, achos mi faswn i'n hoffi gwerthu'r biff efo'r llaeth yn fisol. Mae'r *Red Poll* yn gweddu i'r dim i'n dull atgynhyrchiol ni o ffermio llaeth. Mae'n gwartheg ni i gyd ar borfeydd gwahanol e.e. codlysiau, meillion a pherlysiau. Mae'r brid yma'n fwy gwydn na'r fuwch odro modern, felly maen nhw'n prifio ar y system mewnbwn-isel yma, ac yn gwneud hi'n dda iawn ar laswellt yn unig.

Yn wahanol i'r ffermydd mwy, sut wyt ti'n meddwl bod fferm fel Pentrefelin yn medru bod yn fwy cynaliadwy ac yn well i'r ecosystem?

Mae'n dull atgynhyrchiol ni yn golygu y gallwn gynhyrchu llaeth mewn ffordd fwy cynaliadwy. Erbyn hyn, ryden ni wedi rhoi'r gore i wrteithio a chwistrellu cemegion ar ein silwair a'n tir pori ers tua 2, 3 blynedd. Yn lle hynny, ryden ni'n canolbwyntio ar sefydlu porfeydd amrywiol sy'n cynnwys codlysiau â sefydlogiad nitrogen. Mae'r borfa amrywiol yma'n ddeiet naturiol i'r gwartheg, ond hefyd yn cynyddu bioamrywiaeth ar y fferm. Mae'n hafan i'r

pryfed, y peillwyr a mamaliaid bach. Mae'n dull ni o bori hefyd yn cyfrannu at wella eco-system y fferm – y dull pori-mob. Byddwn ni'n symud y gwartheg i gae newydd bob dydd, ac wedyn yn gadael i hwnnw gael seibiant o 60 diwrnod cyn i'r gwartheg ddod 'nôl yno. Mae hyn yn rhoi amser i'r planhigion hadu a blodeuo – a helpu'r peillwyr. Wrth roi cyfle mor hir â hyn i'r caeau gael seibiant, bydd mwy o amsugno a storio carbon.

Braf gweld y lloeau bach yma efo'u mamau – ydi hyn yn rhan o'r cynllun?

Ryden ni'n gadael y lloeau efo'u mamau'n fwriadol. Dw i'n teimlo'n gryf dros les gwartheg, ac am roi cyfle i'r gwartheg fod yn famau naturiol. Mae bod yn fferm laeth sy'n defnyddio'r dull yma wedi bod yn heriol iawn ar brydie, ac mae'r cynnyrch llaeth wedi bod llawer iawn yn is o'i gymharu â ffermydd llaeth eraill. Mae pobl yn hoffi'r ffaith bod y gwartheg yn cael cadw'u lloeau i'w magu, ac mae llo'n aros gyda'r fam nes ei fod tua 5–6 mis oed. Trwy adael i'r holl broses ddiddlyfnu fod yn fwy naturiol o ran oed, mae hi'n llai o straen ar loeau wrth iddyn nhw droi'n raddol at borfa.

Rwyt ti bellach wrth gwrs yn gwerthu llaeth yng ngheg y lôn ym Mhentrefelin. Lle arall wyt ti'n mynd â'r cynnyrch i'w werthu?

Ar hyn o bryd mae gynnon ni focs 'gonestrwydd' wrth fynedfa'r fferm, a bocs oer y llaeth yno bob dydd o 8am tan 6pm. Weithiau, os nad ydi popeth yn rhedeg yn esmwyth yn y parlwr godro, dydi'r bocs ddim yno tan 11/12 o'r gloch! Ryden ni'n annog pobl i ddod â'u poteli llaeth yn ôl er mwyn i ni allu eu haildefnyddio nhw dro ar ôl tro. Mae gorsaf betrol Rhydymwyn a Siop Fferm y Rhug hefyd yn gwerthu ein llaeth.

Ydi hi'n waith caled perswadio pobol i newid eu harferion oes o brynu llefrith yn y siop fawr?

Hyd yn hyn mae gwerthiant y llaeth wedi bod yn anhygoel o dda, a hynny heb orfod perswadio o gwbl! Dwi'n meddwl bod pobl yn hoffi'n dull ni o ffermio llaeth. Mae




canolbwyntio ar ffermio atgynhyrchiol yn golygu'n bod ni'n gwerthu cynnyrch sy'n hollol unigryw – rhywbeth na ellir ei gael yn unrhyw le arall yn Nyffryn Clwyd. Dw i'n sylwi bod tuedd gan gwsmeriaid i fynd am gynnyrch mwy cynaliadwy, a gan fod ffermio llaeth wedi mynd trwy gyfnod anodd yn y blynyddoedd diweddar, mae'n braf medru cynnig rhywbeth amgen i gwsmeriaid. Rydw i'n edrych 'mlaen yn eiddgar at ddyfodol llewyrchus i 'muches fechan, ac er profi cyfnodau o ddringo a disgyn am yn ail hyd yn hyn, rydw i'n llawn gobaith am y dyfodol.

Diolch yn fawr i ti Huw a phob dymuniad da gyda'r fenter newydd!

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -

FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1

Dyffryn Trading Estate

Rhyl Road

Denbigh

LL16 55J

01745 817676

07775 717602

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr Cyngor Cymuned Llandyrnog

- ◆ Arolwg o anghenion y gymuned – disgwyl amcanbris gan Marc Roberts er mwyn gwneud cais am grant i wneud yr arolwg yn Llandyrnog.
- ◆ Mae Cyngor Sir Ddinbych yn mynd i ystyried eto y cais am arwyddion i rybuddio am geffylau ar y ffyrdd yn yr ardal.
- ◆ Camau i arafu'r traffig ger Pont Glan y Wern – mae'r Cyng. Parry wrthi'n trefnu cyfarfod rhwng cynghorydd Sir Ddinbych a swyddog diogelwch priffyrdd y Cyngor Sir, i weld a oes modd datrys y mater yn gost effeithiol.
- ◆ Does dim byd wedi dod gan BT ynghylch cwblhau gosod band eang yn yr Ystafelloedd Coco.
- ◆ Mae'r gyllideb ddrafft wedi'i pharatoi a'i thrafod gan bawb a chytunwyd i godi'r archebiant 5%. Bydd hyn yn creu incwm ychwanegol o £534.40 ac yn ddigon ar gyfer y costau ychwanegol sydd wedi'u rhagweld.
- ◆ Mae Cymdeithas Chwaraeon a Phêl-droed Llandyrnog wedi gwneud cais i ychwanegu at y tir sydd ganddi ar hyn o bryd ar les. Bwriad hyn yw gwneud y pafiliwn yn fwy i roi cyfleusterau ychwanegol i'r gymuned. Y bwriad yw i aelodau'r cyngor cymuned gyfarfod ar y safle â'r pensaer a chynrychiolwyr y Gymdeithas.
- ◆ Trafodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:
 - Estyniad i Camara House – heb wrthwynebiad
 - Estyniad i Lys Aled – heb wrthwynebiad
 - Tynnu'r gwrych ger Maes Llan – y Cyngor wedi gwrthwynebu'r cais hwn. Fodd bynnag, mae CSDd wedi cynghori nad oedd sail i wrthod y cais oherwydd bod yr egwyddor o dynnu'r gwrych wedi'i sefydlu eisoes o dan gymeradwyaeth flaenorol. Hefyd, nid oedd pwysigrwydd hanesyddol nac ecolegol o bwys i'r gwrych, fel yr oedd wedi'i amlinellu yn adroddiad ecolegol manwl y sawl a gyflwynodd y cais.
- ◆ Pryderon am wyneb maes parcio'r Hwylfa a Maes Llan – i'w riportio i GSDd.
- ◆ Mae bin ail-law isradd wedi'i roi yn lle'r bin arferol ger croesffordd Llangwyfan – y Clerc i wneud ymholiadau.
- ◆ Mae CSDd yn fodlon nad yw'r dŵr sydd ar wyneb y ffordd ger y ganolfan trin carthion yn dod oddi yno, ond o'r tir gyferbyn. Y gobaith yw y bydd yn delio â'r mater ar y cyd â pherchennog y tir cyn iddi ddechrau rhewi.

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345



Blue Hand Mowers

Repair and servicing of all garden machinery:

Lawn mowers and lawn tractors

Chain saws

Hedge cutters

Strimmers

Disc cutters

Quad bikes

Leaf blowers

Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google

www.bluehandmowers.co.uk

enquiries@bluehandmowers.co.uk

☎ 0775 20 35 462